

**2015 Rhif (Cy. )**

## **TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

### **Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Wern Fechan, Rhuthun, Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros) 2015**

*Gwnaed* 4 Rhagfyr 2015

*Yn dod i rym* 10 Rhagfyr 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### **Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Rhagfyr 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Wern Fechan, Rhuthun, Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros) 2015.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn –

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur (Cymru) 2000(2);

mae i "disg barcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3).

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:

(a) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r

bathodyn yn cael ei arddangos ar y dangosfwrdd neu'r panel deialau fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) disg barcio yn y lle perthnasol:

(a) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos ar y dangosfwrdd neu'r panel deialau fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

### **Esemptiadau**

**4.** (1) Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen cyhyd ag y gall fod yn angenrheidiol i alluogi:

- (a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;
- (b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag

unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

- (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
  - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
  - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r ffordd; neu
  - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn hwnnw o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(4);
- (d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;
- (e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn hwnnw o'r gefnffordd neu'n gyfagos ato;
- (f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu
- (g) y cerbyd i stopio:
- (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
  - (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu
  - (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

(2) Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl y mae bathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi marcio arnynt yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) yn cael eu harddangos yn y man perthnasol arno aros ar unrhyw un o ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, sef cyfnod y bydd ysbaid o un awr o leiaf rhyngddo a chyfnod blaenorol pan fu'r un cerbyd yn aros ar yr un darn o gefnffordd ar yr un diwrnod.

## **Dirymu**

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A494) (Stryd y Rhos, Rhuthun, Clwyd) (Gwahardd Aros) 1986(5) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 4 Rhagfyr 2015

*Richard Morgan*

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraffau 17 a 18. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 2000/1786
- (3) O.S. 2000/1785
- (4) 2003 p. 21
- (5) O.S. 1986/1548

## **YR ATODLEN**

### **GWAHARDD AROS**

Ochr ogleddol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy'n ymestyn o bwynt 31 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Briec i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 32.5 o fetrau hyd at bwynt 63.5 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Briec.

Ochr ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy'n ymestyn o bwynt 86.5 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Briec i gyfeiriad y de am bellter o 132 o fetrau hyd at ei chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Haulfryn.

Ochr ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Haulfryn i gyfeiriad y de am bellter o 128 o fetrau hyd at ei chyffordd â Cefnffordd yr A494 a elwir Stryd y Rhos.

Ochrau deheuol a gorllewinol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Briec i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 35 o fetrau ac yna i gyfeiriad y de am bellter o 245 o fetrau.

Ochr orllewinol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A494 a elwir Stryd y Rhos i gyfeiriad y gogledd am bellter o 26 o fetrau.

Ochr gogledd-orllewinol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gefnffordd a elwir Wern Fechan i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 82 o fetrau hyd at ei chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Haulfryn.

Ochr gogledd-orllewinol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Haulfryn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 132 o fetrau hyd at bwynt gyferbyn â'i chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Stryd y Brython/Parc Brynhyfryd.

Ochr de-ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Wern Fechan yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A494 a elwir Wern Fechan i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 78 o fetrau.

Ochr de-ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chefnffordd yr A494 a elwir Wern Fechan i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 29 o fetrau.

Ochr de-ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o bwynt 152 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chefnffordd yr A494 a elwir Wern Fechan i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 68 o fetrau hyd at ei chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Stryd y Brython/Parc Brynhyfryd.

Ochr de-ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Stryd y Brython/Parc Brynhyfryd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 6 o fetrau.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (WERN  
FECHAN, RHUTHUN, SIR DDINBYCH)  
(GWAHARDD AROS) 2015**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi. Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros ar ymylon y darnau o Gefnffordd yr A497

Dolgellau i Benbedw (“y gefnffordd”) yn Wern Fechan, yn Rhuthun, yn Sir Ddinbych, fel y’u pennir yn yr Atodlen i’r Hysbysiad hwn. Ar hyn o bryd, gwaherddir aros ar rai o’r darnau o’r gefnffordd o dan sylw yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd (yr A494) (Stryd y Rhos, Rhuthun, Clwyd) (Gwahardd Aros) 1986 a gaiff ei ddirymu a’i ailddeddfu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 10 Rhagfyr 2015, gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r plan yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfa’r Post Rhuthun, 18 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1YL ac yng Nghyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y cyfeiriad isod drwy ddyfynnu’r cyfeirnod qA1163538.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. na chydymffurfwyd ag unrhyw un neu ragor o’r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 10 Rhagfyr 2015, wneud cais i’r Uchel Lys am atal dros dro neu ddiddymu’r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2015).

**Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*M D Burnell*

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLEN**

### **GWAHARDD AROS**

Ochr ogleddol Cefnffordd Dolgellau - Man i’r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy’n ymestyn o bwynt 31 o fetrau i’r dwyrain o’i chyffordd â Chylchfan Bric i gyfeiriad y dwyrain am

bellter o 32.5 o fetrau hyd at bwynt 63.5 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Briec.

Ochr ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy'n ymestyn o bwynt 86.5 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Briec i gyfeiriad y de am bellter o 132 o fetrau hyd at ei chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Haulfryn.

Ochr ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Haulfryn i gyfeiriad y de am bellter o 128 o fetrau hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A494 a elwir Stryd y Rhos.

Ochrau deheuol a gorllewinol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Briec i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 35 o fetrau ac yna i gyfeiriad y de am bellter o 245 o fetrau.

Ochr orllewinol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Wern Fechan, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A494 a elwir Stryd y Rhos i gyfeiriad y gogledd am bellter o 26 o fetrau.

Ochr gogledd-orllewinol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gefnffordd a elwir Wern Fechan i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 82 o fetrau hyd at ei chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Haulfryn.

Ochr gogledd-orllewinol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Haulfryn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 132 o fetrau hyd at bwynt gyferbyn â'i chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Stryd y Brython/Parc Brynhyfryd.

Ochr de-ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Wern Fechan yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A494 a elwir Wern Fechan i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 78 o fetrau.

Ochr de-ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chefnffordd yr A494 a elwir Wern Fechan i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 29 o fetrau.

Ochr de-ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r

De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o bwynt 152 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chefnffordd yr A494 a elwir Wern Fechan i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 68 o fetrau hyd at ei chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Stryd y Brython/Parc Brynhyfryd.

Ochr de-ddwyreiniol Cefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a elwir Stryd y Rhos, yn Rhuthun sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Ffordd Sirol a elwir Stryd y Brython/Parc Brynhyfryd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 6 o fetrau.